Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cyfuno'r ffiniau mewn dysgu oedolion yn y gymuned

Gorffennaf 2008

Iechyd ar Waith
Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion ac unedau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad/cyhoeddiad penodol.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Cefndir **3**

Natur dysgu oedolion yn y gymuned 3
Dysgu oedolion yn y gymuned a chysylltiadau â strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol 4
Arolygu dysgu oedolion yn y gymuned 5

Prif ganfyddiadau **6**

Argymhellion **8**

Gweithio mewn partneriaeth: Creu diwylliant, medrau ac ymddygiad ar gyfer darpau ar y cyd yn effeithiol **10**

Darparu gyda'i gilydd: Datblygu ffocws ar y cyd ar wella canlyniadau ac ehangu'r cwricwlwm **14**

Partneriaeth gyda dysgwyr: Cynnwys dysgwyr wrth wneud penderfyniadau a chynllunio eu dysgu **16**

Strwythurau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau 16
Dulliau o allgymorth ac ymgynghori â'r gymuned 17
Cynnwys dysgwyr fel eiriolwyr neu hyrwyddwyr dysgu 19

Allwedd i weithio ar y cyd: Ariannu teg, anghystadleuol a rhannu adnoddau'n wirioneddol **20**

Partneriaid ehangach: Gweithio gyda'r trydydd sector a darparwyr eraill dysgu oedolion yn y gymuned, gan gynnwys sefydliadau addysg uwch **21**

Her allweddol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth: Gwella rheoli perfformiad **22**

Atodiad 1: Y fframwaith arolygu cyffredin

Atodiad 2: Sail y dystiolaeth

Llyfryddiaeth

Geirfa/cyfeiriadau

Cyflwyniad

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw llywio gwaith datblygu polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynllunio dysgu oedolion yn y gymuned (DOG). Mae'r adroddiad yn arfarnu pa mor dda y mae darparwyr DOG yn gweithio ar y cyd i gyflwyno darpariaeth well i ddysgwyr. Mae'n ystyried ansawdd gweithio mewn partneriaeth rhwng darparwyr a pha mor dda y mae darparwyr yn gweithio mewn partneriaeth â dysgwyr i gyflwyno cwricwlwm sy'n berthnasol i anghenion lleol a chenedlaethol.

2 Mae adolygiad Beecham, 'Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd' (2006) yn nodi'r ffactorau llwyddiant allweddol y mae eu hangen i wella lefel cydweithrediad a chynllunio DOG ar lefel awdurdod lleol. Y ffactorau llwyddiant allweddol hyn yw:

- cynnwys dinasyddion – cynnwys dysgwyr yn y broses o gynllunio gwasanaethau i bob dysgwr;
- darparu – datblygu ffocws ar wella canlyniadau;
- partneriaeth – creu diwylliant, medrau ac ymddygiad sy'n addas ar gyfer cyflwyno ar y cyd; a
- her – gwella rheoli perfformiad.

3 Mae Beecham hefyd yn nodi bod cymhlethdod cyllid i wasanaethau cyhoeddus mewn perygl o danseilio gwerth am arian ac yn gwneud y gwaith o gyfuno cyllidebau ac adnoddau'n fwy anodd ar lefel leol.

4 Mae'r adolygiad diweddar o Addysg Bellach yng Nghymru: 'Addewid a Chyflawniad: yr adolygiad o genhadaeth a phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru', Webb (2007) hefyd yn argymell ffordd ymlaen ar gyfer darparu dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'r adolygiad yn cydnabod pwysigrwydd DOG fel nodwedd werthfawr ac ymgorfforedig o ddiwylliant a hanes Cymru. Mae hefyd yn cydnabod y manteision a'r buddion cymdeithasol y mae cyfranogiad mewn dysgu'n eu creu i lawer o oedolion ac i gymdeithas Cymru.

5 Mae adolygiad Webb yn argymell y dylai ffocws cyllid cyhoeddus ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned ganolbwyntio ar y rheiny sy'n fwyaf anghenus:

- yr oedolion hynny nad ydynt wedi cyflawni cymhwyster lefel 2;
- yr oedolion hynny sy'n perthyn i grwpiau o'r boblogaeth y mae eu cyfranogiad mewn dysgu'n arbennig o isel; ac
- y rheiny sy'n byw mewn ardaloedd lle nodwyd anfantais addysgol.

6 Mae'r adolygiad hefyd yn trafod y materion sy'n ymwneud ag ystod eang o wahanol ddarparwyr sy'n gysylltiedig â darparu dysgu oedolion yn y gymuned, y mae gan bob un gwahanol ffrydiau ariannu a gwahanol safbwyntiau strategol. Mae Webb yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n datblygu ymagwedd strategol, yn enwedig i'r grwpiau mwyaf difreintiedig, gan gynnwys nifer o asiantaethau a ariennir gan gyllidebau cyfun.

7 Mae 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' – sef dogfen ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer medrau a chyflogaeth yng Nghymru (Ionawr 2008) – yn cydnabod cyfraniad dysgu oedolion yn y gymuned o ran helpu'r bobl hynny nad oes ganddynt brofiad cadarnhaol o ddysgu; y rheiny y mae'n bosibl nad ydynt yn gweithio, y rheiny y mae'n bosibl nad ydynt yn cymryd rhan mewn dysgu a dysgwyr sydd dan anfantais. Mae'r ddogfen ymgynghori'n cynnig:

- sicrhau mwy o berchenogaeth gymunedol o'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned;
- darparu cyfleoedd newydd i'r trydydd sector ddarparu dysgu yn y gymuned;
- cynyddu'r ddarpariaeth Medrau Sylfaenol, gan gynnwys ymestyn Addewid y Cyflogwyr i wella medrau sylfaenol pobl yn y gweithle;
- cynyddu gallu Undebau Llafur i gynnig dysgu i'w haelodau;
- sicrhau bod cyrsiau SSIE i weithwyr ymfudol yn cael eu hariannu'n briodol yn unol â pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru; a
- sicrhau bod gweithwyr hŷn yn gallu ymwela ar raglenni medrau newydd a chyfredol.

8 Mae 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' yn mynnu bod y rheiny sy'n dysgu oedolion yn y gymuned yn gallu cysylltu â chymunedau i'w galluogi i gymryd perchnogaeth dros flaenoriaethau lleol. Mae'r ddogfen hefyd yn datgan y bydd angen i ddarparwyr gydweithio'n dda â'i gilydd a chyflogwyr i sicrhau bod gan yr holl ddysgwyr fynediad at gwricwlwm sy'n gwella eu medrau personol a galwedigaethol.

9 Mae'r adroddiad hwn yn nodi pa mor dda y mae darparwyr yn cydweithio â'i gilydd i fynd i'r afael â'r ffactorau llwyddiant allweddol a amlinellwyd yn adolygiad Beecham ac yn tynnu nodweddion da a diffygion gwaith effeithiol ar y cyd at ei gilydd, a nodwyd trwy arolygiadau o ddysgu oedolion yn y gymuned.

10 Mae'r adroddiad hwn yn nodi pa mor barod y mae darparwyr i fynd i'r afael â'r cynigion yn 'Addewid a Chyflawniad' a 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru'. Mae'n arfarnu pa mor dda y mae darparwyr yn cydweithio â'i gilydd i ddatblygu ymagweddau strategol at ddysgu oedolion yn y gymuned ac i gysylltu â dysgwyr er mwyn cynyddu perchenogaeth gymunedol o'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned.

11 Paratowyd yr adroddiad hwn trwy dynnu ar adroddiadau arolygu presennol o ddysgu oedolion yn y gymuned a thrwy gynnal nifer fach o gyfweliadau gyda darparwyr a dysgwyr (gweler Atodiad 2).

Cefndir

Natur dysgu oedolion yn y gymuned

12 Mae dysgu oedolion yn y gymuned yn cynnwys darpariaeth addysgol i oedolion a wneir gan awdurdodau lleol, colegau addysg bellach, sefydliadau addysg uwch a sefydliadau gwirfoddol, gan gynnwys Cynghorau Gwirfoddol Sirol, sefydliadau gwirfoddol unigol, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru (CAG(De)), Coleg Harlech/Cymdeithas Addysg y Gweithwyr Gogledd Cymru (CHCAG (Gog)) a Choleg Cymunedol yr YMCA.

13 Yn achos colegau addysg bellach, mae dysgu oedolion yn y gymuned yn cynnwys y ddarpariaeth a gyflwynir yn uniongyrchol gan y coleg a'r ddarpariaeth a gyflwynir trwy drefniadau gyda thrydydd parti. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys:

- dychwelyd i ddysgu (Dysgu camau cyntaf);
- medrau ar gyfer gwaith neu astudiaeth bellach;
- datblygiad personol a lles;
- dysgu ar gyfer dinasyddiaeth weithredol a datblygu'r gymuned;
- medrau sylfaenol cynradd;
- Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE);
- medrau ar gyfer byw'n annibynnol; a
- Chymraeg i Oedolion.

14 Yn ogystal, gallai rhaglenni tebyg a ariennir gan awdurdodau lleol gynnwys gwaith a gyflawnir trwy fentrau fel Cymunedau yn Gyntaf, y Strategaeth i Bobl Hŷn, datblygu'r celfyddydau, Rhwydwaith y Bobl, addysg i rieni a mentrau datblygu cymunedol.

15 Mae rhaglenni a ddarperir gan sefydliadau yn y sector gwirfoddol yn cynnwys dysgu sy'n gwella gallu a medrau oedolion i ymgymryd â rolau gwirfoddol yn eu cymunedau, gweithgareddau sy'n cyfrannu at adfywio cymunedau lleol a rhaglenni addysg gyffredinol sy'n helpu dysgwyr i wella eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth mewn ystod o bynciau.

16 Mae rhan fwyaf y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn darparu rhaglenni dysgu oedolion yn y gymuned hefyd. Mae'r rhaglenni hyn wedi'u bwriadu i annog dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch neu ymestyn eu dysgu mewn ffyrdd eraill. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn arolygu rhaglenni DOG a ddarperir gan sefydliadau addysg uwch, heblaw Cymraeg i Oedolion.

17 Mae oedolion sy'n dysgu yn cymryd rhan mewn dysgu am nifer o wahanol resymau, gan gynnwys:

- gwella eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth. Gallai hyn fod am resymau galwedigaethol neu addysgol, gan gynnwys gwella'r modd y maent yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu neu wella eu medrau sylfaenol neu eu defnydd o Saesneg;
- datblygu diddordeb personol;
- cynnal cyswllt ag aelodau eraill o'r gymuned;
- cyfrannu at wella eu cymunedau;
- gwella eu hiechyd;
- eu helpu i ymgymryd â gwaith gwirfoddol; a
- helpu eraill i ddysgu, gan gynnwys eu plant a'u hwyrion/hwyresau.

18 Ariennir dysgu oedolion yn y gymuned gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn bennaf a/neu awdurdod lleol. Mae Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DCELLS) Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cyllid i golegau addysg bellach, awdurdodau lleol, y ddwy Gymdeithas Addysg y Gweithwyr a Choleg Cymunedol yr YMCA trwy'r System Cynllunio ac Ariannu genedlaethol.

19 Mae adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cyllid i ddarparwyr unigol ar gyfer gweithgareddau dysgu oedolion yn y gymuned hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys Cymunedau yn Gyntaf, y rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol, mentrau'r sector gwirfoddol a'r rhaglen Gweithredu dros Gymunedau Gwledig.

20 Mae llawer o ddarparwyr yn cael ffynonellau eraill o gyllid, gan gynnwys arian Ewropeaidd a'r loteri genedlaethol.

Dysgu oedolion yn y gymuned a chysylltiadau â strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol

21 Mae llawer o ddarparwyr sy'n dysgu oedolion yn y gymuned yn cysylltu eu darpariaeth yn dda ag ystod o flaenoriaethau a pholisïau cenedlaethol a hyrwyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.[1]

22 Mae'r rhain yn cynnwys:

- datblygiad economaidd;
- yr agenda medrau;
- adfywio cymunedol;

[1] Cadarnheir hyn gan dystiolaeth arolygu Estyn. Gallwch weld adroddiadau arolygu DOG ar wefan Estyn: www.estyn.gov.uk

- iechyd a lles;
- Iaith Pawb;
- strategaeth Sgiliau Sylfaenol genedlaethol;
- dinasyddiaeth – gan gynnwys cyflwyno Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE);
- yr amgylchedd ac Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF);
- cyfiawnder ieuenctid; a'r
- Strategaeth i Bobl Hŷn.

Arolygu dysgu oedolion yn y gymuned

23 Mae arolygiadau Estyn o ddysgu oedolion yn y gymuned yn ystyried rhwydwaith y ddarpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned sydd ar gael i ddysgwyr mewn ardal 'teithio i ddysgu'. Yn rhan fwyaf yr achosion, mae hyn mewn un ardal awdurdod lleol.

24 Mae arolygiadau'n cynnwys gwaith yr holl ddarparwyr sy'n gweithredu mewn unrhyw ardal, gan gynnwys awdurdodau lleol, colegau addysg bellach, CAG (De), CAG (Gog) Coleg Harlech, Coleg Cymunedol yr YMCA, y Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol a nifer amrywiol o sefydliadau gwirfoddol bach.

25 Mae arolygiadau Estyn o ddysgu oedolion yn y gymuned wedi'u seilio ar y Fframwaith Arolygu Cyffredin (gweler Atodiad 1) ac yn adrodd ar:

- y safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn y meysydd dysgu:
  - Addysg Sylfaenol i Oedolion (ASO);
  - Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE);
  - Cymraeg i Oedolion (CiO);
  - Dysgu Oedolion; a
  - Datblygu Cymunedol;
- ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant; a
- safon yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, gan gynnwys pa mor dda y mae darparwyr yn cydweithio â'i gilydd i ddarparu dysgu oedolion yn y gymuned.

26 Rhwng Medi 2004 ac Ionawr 2008, arolygodd Estyn 13[2] ardal awdurdod lleol a dau sefydliad: Coleg Cymunedol yr YMCA a CAG (De).

[2] Caerffili, Wrecsam, Rhondda Cynon Taf, Conwy, Sir Ddinbych, Torfaen, Ceredigion, Sir Benfro, Castell-nedd Port Talbot, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin a Chaerdydd

Prif ganfyddiadau

27 Mae safon yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda mewn 44% o'r partneriaethau a arolygwyd ers 2004. Ym mhob un o'r achosion hyn, mae darparwyr yn gweithio'n dda ar y cyd ac mae prif swyddogion ac uwch reolwyr yn ymroddedig i weithio gyda'i gilydd. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned (DOG). Maent yn cytuno ar gyfeiriad strategol da ar gyfer DOG ac yn pennu strwythur clir ar gyfer rheoli a chydlynu'r ddarpariaeth.

28 Fodd bynnag, mae cynlluniau'r darparwyr yn cael eu rhwystro gan ddiffyg strategaeth genedlaethol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned sy'n pennu gweledigaeth, nodau ac amcanion ar gyfer y sector ac yn tynnu holl linynnau blaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru at ei gilydd.

29 Nid yw natur y trefniadau ariannu ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yn annog darparwyr i rannu cyllid craidd. Mae darparwyr yn aml yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno cynigion am grantiau byrdymor i gynnal prosiectau arloesol, ond nid ydynt yn cynllunio'n dda i gwmpasu'r gost o barhau â'r gwaith pan ddaw'r cyllid i ben. Nid oes digon o bartneriaethau'n dyrannu adnoddau i reoli gwaith y bartneriaeth ei hun. O ganlyniad, mae gallu partneriaid i gydlynu gwaith y bartneriaeth i ymgymryd â darnau o waith ar y cyd, fel datblygu a hyfforddi staff, yn cael ei rwystro.

30 Nid oes meincnodi cenedlaethol cytûn ar gael i alluogi'r holl ddarparwyr i gymharu eu perfformiad mewn modd systematig a ffurfiol. Nid oes golwg genedlaethol o ddemograffeg oedolion sy'n dysgu yn y gymuned, pa mor dda y maent yn cyflawni, beth maent yn ei ddysgu a'r hyn y maent yn ei wneud ar ôl gorffen cwrs.

31 Nid yw mwyafrif y darparwr yn cydweithio'n ddigon da â'i gilydd i rannu a gwneud y gorau o'r wybodaeth reoli sydd ar gael iddynt. Mae rhan fwyaf y darparwyr yn defnyddio data'n dda i fesur eu perfformiad eu hunain, ond prin iawn y maent yn rhannu data gyda phartneriaid neu'n cydweithio â nhw i gasglu data mewn ardal. Mae hyn yn eu rhwystro rhag cynllunio a monitro eu gallu i wella'r ddarpariaeth i ddysgwyr yn eu hardal.

32 Pan fydd safon yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda, mae darparwyr yn cydweithio'n dda â'i gilydd i gynhyrchu cynlluniau strategol a gweithredol da. Maent yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac yn anelu'r ddarpariaeth at grwpiau penodol o ddysgwyr. Maent yn cytuno pa sefydliad yw'r un mwyaf priodol i ddarparu agweddau penodol ar DOG. Maent yn lleihau cystadleuaeth a dyblygiad.

33 Ym mwyafrif y partneriaethau lle mae safon yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda, mae darparwyr yn sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni anghenion y dysgwyr yn y gymuned. Maent yn llunio cwricwlwm sy'n ymateb i strategaethau economaidd cenedlaethol a rhanbarthol. Maent yn sicrhau bod gan ddysgwyr ddewis a llwybrau dilyniant clir. Fodd bynnag, ychydig iawn o bartneriaeth sy'n llwyddo i ganfod lefel yr angen am ddosbarthiadau Cymraeg neu ddwyieithog yn effeithiol.

34 Nid yw digon o ddarparwyr yn cynnwys dysgwyr wrth benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer DOG yn eu hardal. Mae rhai darparwyr yn gwella'r modd y maent yn cysylltu â dysgwyr. Yn yr achosion hyn, mae darparwyr yn defnyddio tri phrif ddull o gysylltu â dysgwyr:

- trwy strwythurau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau;
- trwy ddefnyddio dulliau allgymorth ac ymgynghori â'r gymuned; a
- thrwy hyfforddi dysgwyr fel eiriolwyr neu hyrwyddwyr ar gyfer dysgu oedolion.

35 Mae sefydliadau gwirfoddol sy'n dysgu oedolion yn y gymuned yn cyflawni angen dysgu hollbwysig yn y rhaglenni dysgu datblygu cymunedol sy'n ymateb i anghenion yr oedolion hynny sy'n anoddaf i'w cyrraedd. Mae'r darparwyr gwirfoddol mwy yn aml yn chwarae rhan arwyddocaol mewn partneriaethau lleol ond mae grwpiau gwirfoddol llai yn ei chael yn anodd chwarae rhan lawn gan nad oes ganddynt yr adnoddau i wneud hynny. Mae cyrff statudol eraill sydd â diddordeb allweddol mewn addysg a hyfforddiant yn aml ar goll o bartneriaethau lleol.

36 Mae sefydliadau addysg uwch yn cyfrannu'n dda at y trefniadau cynllunio ar gyfer cyflwyno Cymraeg i Oedolion. Fodd bynnag, nid yw partneriaethau lleol yn ystyried y gweithgareddau DOG eraill a ddarperir gan AU yn eu cynllunio yn ddigon da nac yn gweithio gyda darparwyr AU i ymestyn dewislen y llwybrau dilyniant sydd ar agor i ddysgwyr.

37 Mae darparwyr mewn hanner y partneriaethau a arolygwyd yn cydweithio'n dda â'i gilydd er mwyn sicrhau bod yr adeiladau a'r lleoliadau ar gyfer DOG o safon dda ac yn cael eu defnyddio'n llawn. Maent wedi sefydlu rhwydwaith strategol o ganolfannau dysgu er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad rhwydd at leoliadau o safon uchel.

Argymhellion

Er mwyn cynorthwyo darparwyr i adeiladu ar arfer dda gweithio ar y cyd, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 ddatblygu fframwaith polisi cenedlaethol clir ar gyfer darparu dysgu oedolion yn y gymuned;

A2 sefydlu partneriaethau ffurfiol ar gyfer cyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned sy'n canolbwyntio ar ardaloedd daearyddol penodol ledled Cymru;

A3 datblygu strategaeth ariannu ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned sy'n galluogi darparwyr i rannu cyllidebau a chyflawni gwerth am arian; a

A4 sefydlu strategaeth data sy'n cynnwys meincnodau cenedlaethol cytûn a dangosyddion perfformiad ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned i fesur:

- cwblhad, cyrhaeddiad a llwyddiant yn ôl lefel pwnc (e.e. Lefel 1 TG, Lefel 2 Celf);
- dilyniant i lefelau dysgu uwch;
- dilyniant i feysydd dysgu newydd ar yr un lefel;
- llwyddiant a dilyniant dysgwyr nad ydynt wedi cael llawer iawn o lwyddiant mewn dysgu yn y gorffennol;
- effaith strategaethau ar gyfer ymestyn cyfranogiad; a
- thueddiadau demograffig o ran cyfranogiad dysgwyr mewn dysgu oedolion yn y gymuned.

Dylai darparwyr:

A5 weithio'n ffurfiol gyda darparwyr eraill mewn grwpiau partneriaeth sy'n cynnwys yr holl ddarparwyr sy'n gweithio yn yr ardal, gan gynnwys darparwyr yn y sector gwirfoddol a sefydliadau addysg uwch.

Dylai partneriaethau:

A6 gynhyrchu cynlluniau strategol a gweithredol sy'n ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ac sy'n lleihau cystadleuaeth a dyblygiad ac yn gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael i sicrhau gwerth da am arian;

A7 rhannu data perfformiad rhwng darparwyr i gymharu pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni ym mhob sefydliad ac i sicrhau bod data demograffig yn cael ei ddefnyddio i dargedu'r ddarpariaeth, i nodi grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ac i sicrhau adnoddau ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol;

A8 rhannu cyllidebau ar gyfer cyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned er mwyn:

- cyflawni gwerth am arian;
- dyrannu adnoddau i reoli gwaith y bartneriaeth; ac
- ymgymryd â darnau o waith ar y cyd, gan gynnwys datblygu a hyfforddi staff;

A9 cynnal archwiliad effeithiol o anghenion cymunedau a llunio cwricwlwm priodol;

A10 nodi grwpiau o ddysgwyr sy'n cael blaenoriaeth;

A11 nodi a hyrwyddo llwybrau dilyniant i ddysgwyr;

A12 meddu ar ddulliau clir o gynnwys dysgwyr wrth wneud penderfyniadau a chynllunio'r cwricwlwm; a

A13 datblygu rhwydweithiau strategol o ganolfannau dysgu sydd ag adeiladau a chyfleusterau o safon uchel.

Gweithio mewn partneriaeth: Creu diwylliant, medrau ac ymddygiad ar gyfer darparu ar y cyd yn effeithiol

38 Mae darparwyr DOG wedi gwella'r modd y maent yn gweithio ar y cyd ers 2004. Mae adroddiadau blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant ar gyfer 2005-2006 a 2006-2007 yn dangos bod darparwyr wedi gwella cynllunio strategol a chydlynu cyrsiau. Mae darparwyr hefyd wedi gwella'r modd y maent yn asesu ansawdd eu darpariaeth ar y cyd.

39 Fodd bynnag, mae cynlluniau'r darparwyr yn cael eu rhwystro gan ddiffyg strategaeth genedlaethol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned sy'n pennu gweledigaeth, nodau ac amcanion ar gyfer y sector ac yn tynnu holl linynnau blaenoriaethau a pholisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru at ei gilydd. Mae diffyg fframwaith cenedlaethol cyffredinol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yn gwanhau arweinyddiaeth a rheolaeth strategol dysgu oedolion yn y gymuned ym mron pob ardal (Estyn Ebrill 2004[3]).

40 Barnodd Estyn fod safon yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol (Cwestiwn Allweddol 5 – gweler atodiad 1) yn dda neu'n well mewn 44% o'r holl arolygiadau o ddysgu oedolion yn y gymuned. Mae hyn yn adlewyrchu ansawdd y gwaith mewn partneriaeth a arsylwyd rhwng mis Hydref 2004 a mis Ionawr 2008.

Tabl 1: Effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth strategol



41 Mae'r darparwyr sy'n gweithio yn y partneriaethau da hyn yn effeithiol wrth gytuno ar gyfeiriad strategol ar gyfer DOG ar draws eu hardal. Maent yn cytuno pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu agweddau ar DOG i leihau cystadlu a dyblygu ac yn gweithio gyda'i gilydd i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.

42 Nid yw mwyafrif y darparwyr yn cydweithio'n ddigon da â'i gilydd i rannu a gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth reoli sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn eu rhwystro rhag cynllunio a monitro eu gallu i wella'r ddarpariaeth i ddysgwyr yn eu hardal.

[3] Estyn (Ebrill 2004) Ymestyn cyfranogiad mewn dysgu oedolion yn y gymuned: Arolwg o arfer orau

43 Yn y 44% o bartneriaethau lle mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn dda, mae darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn llwyddiannus i gytuno ar gyfeiriad strategol ar gyfer DOG. Maent yn rhoi arferion gweithredol da ar waith ac yn dangos y nodweddion da canlynol:

- mae gan brif swyddogion ac uwch reolwyr ymroddiad cryf i weithio ar y cyd â darparwyr eraill yn yr ardal ac i gytuno ar bwy ddylai arwain meysydd a phynciau penodol. Maent yn rhoi cyfeiriad da i'w staff;

- mae'r holl ddarparwyr a'r partïon sydd â diddordeb yn yr ardal yn gweithio'n dda i osod strwythur clir ar gyfer rheoli a chydlynu dysgu oedolion yn y gymuned. Mae darparwyr yn aml yn sefydlu grŵp ffurfiol i reoli'r gwaith. Mae Consortia Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant (CCETau), neu'r grwpiau strategol sydd wedi'u disodli, yn rhoi cymorth da i'r mathau hyn o drefniadau;

- mae gan grwpiau rheoli weledigaeth glir ar gyfer DOG a chyfres o nodau ac amcanion sy'n cael eu deall gan staff ar bob lefel. Maent yn rhoi arweiniad clir i unrhyw is-grwpiau a staff sy'n gyfrifol am ddarpariaeth weithredol;

- mae grwpiau rheoli'n cydweithio'n dda â'i gilydd i gynhyrchu cynllunio strategol a gweithredol. Maent yn talu sylw da i flaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac yn sicrhau bod gan ddysgwyr ddewis da o ran darpariaeth;

- mae grwpiau rheoli wedi cydweithio'n dda â'i gilydd i ddarparu prosiectau penodol. Mae'r rhain yn aml yn gysylltiedig â ffrydiau ariannu sy'n gyfyngedig o ran amser;

- mae gan gynlluniau strategol ddylanwad cryf ar ddarparu'r cwricwlwm a'r grwpiau o ddysgwyr y mae'r cwricwlwm wedi'i anelu atynt. Mae darparwyr yn cytuno pa sefydliad sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu agweddau penodol ar ddysgu oedolion yn y gymuned a ble a phryd y dylid cyflwyno cyrsiau. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd i sicrhau bod dysgwyr yn cael dewis da o ran darpariaeth ac i leihau cystadlu a dyblygu;

- mae gan ddarparwyr unigol ddealltwriaeth dda o ba mor dda y mae eu sefydliad eu hunain yn perfformio. Maent yn defnyddio data perfformiad yn dda i nodi cryfderau a gwendidau mewn canlyniadau ar gyfer dysgwyr ac yn ansawdd yr addysgu ar gyrsiau unigol. Maent yn dadansoddi gwybodaeth am ddilyniant dysgwyr i lefelau uwch o astudio neu i wahanol gyrsiau ar yr un lefel. Maent yn cymharu canlyniadau â chymaryddion cenedlaethol, lle mae'r rhain yn bodoli, neu gyda'r rheiny a gyflawnir gan ddarparwyr tebyg;

- mae arweinwyr a rheolwyr yn aml yn cynnal arolygiadau mewnol o'u darpariaeth eu hunain, yn nodi arfer dda ac yn sicrhau bod athrawon effeithiol yn rhannu eu harfer dda gyda staff eraill; ac

- mae arweinwyr a rheolwyr o wahanol ddarparwyr yn cydweithio'n dda â'i gilydd i sicrhau bod y lleoliadau a'r adeiladau sydd ar gael ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned o safon dda a'u bod yn cael eu defnyddio'n llawn. Mewn sawl achos, mae darparwyr wedi sefydlu rhwydwaith strategol o ganolfannau dysgu er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad rhwydd at leoliadau o safon uchel.

Rhoi trefniadau da ar waith ar gyfer cynllunio a rheolaeth strategol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghastell-nedd Port Talbot

Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae Prif Swyddog Addysg a Hamdden yr awdurdod lleol, Pennaeth Coleg Castell-nedd Port Talbot a Chyfarwyddwr Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i roi arweinyddiaeth strategol i'r Rhwydwaith Dysgu Newydd. Y rhwydwaith yw is-grŵp dysgu cymunedol CCAH Castell-nedd Port Talbot. Mae'r rhwydwaith yn dod â chynrychiolwyr o 60 sefydliad partner at ei gilydd mewn amrywiaeth o grwpiau i gynllunio a monitro dysgu oedolion yn y gymuned.

Mae'r rhwydwaith yn sicrhau bod cysylltiad cryf rhwng darparu dysgu oedolion yn y gymuned a blaenoriaethau addysg a hyfforddiant yr ardal. Mae partneriaid wedi cytuno ar 15 amcan allweddol mewn Cynllun Dysgu Cymunedol. Mae'r rhwydwaith yn gallu mesur cynnydd yn erbyn y targedau hyn i weld pa mor dda ydyw. Mae strwythur y rhwydwaith yn helpu partneriaid i ymateb yn dda i faterion gweithredol sy'n codi pan fydd llawer o ddarparwyr, gyda'u gwahanol weithdrefnau, yn gweithio gyda'i gilydd.

Mae gan Gynllun Dysgu Cymunedol y rhwydwaith gysylltiadau cryf ag ystod o strategaethau rhanbarthol a lleol. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad Rhanbarthol o Anghenion a Blaenoriaethau, y Cynllun Cymunedol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, y strategaethau Medrau Sylfaenol a Medrau Hanfodol, y Strategaeth i Bobl Hŷn a'r Strategaeth Gofalwyr. Mae'r cysylltiadau da â'r strategaethau hyn yn sicrhau bod darparwyr yn trefnu eu darpariaeth yn dda i fod o fudd i ddysgwyr.

Rhoi trefniadau da ar waith ar gyfer cynllunio a rheolaeth strategol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghonwy

Yn 2005, sefydlodd Cwlwm, sef y Consortia Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghonwy, is-grŵp dysgu gydol oes. Mae'r is-grŵp yn gosod y cyfeiriad strategol a'r cynllun gweithredol ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yng Nghonwy yn effeithiol. Mae cyswllt yr is-grŵp dysgu gydol oes yn sicrhau bod ei amcanion yn cysylltu'n dda â nodau ac amcanion Cwlwm ac amcanion strategol cynlluniau allweddol eraill yn yr ardal, gan gynnwys y Strategaeth Gymunedol a'r Strategaeth Adfywio. Mae'r is-grŵp yn monitro gweithrediad ei gynllun strategol ac yn nodi cynnydd yn erbyn targedau. Mae'r is-grŵp dysgu gydol oes yn blaenoriaethu gwaith gyda dysgwyr sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar ystod y cyfleoedd dysgu a gynigir i'r rheiny yn yr ardaloedd hynny ac ar ganlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr.

44 Mae llawer o ddarparwyr yn cydweithio'n dda â'i gilydd ar brosiectau sy'n gyfyngedig o ran amser er mwyn helpu dysgwyr i gyflawni neu wella arweinyddiaeth a rheolaeth.

45 Er enghraifft, mae CAG (Gog) Coleg Harlech yn gweithio'n dda gyda cholegau addysg bellach ledled gogledd Cymru i ddarparu prosiectau a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'r prosiectau hyn yn helpu dysgwyr newydd i gymryd rhan mewn dysgu a symud ymlaen i lefel dysgu uwch. Cydweithiodd llawer o ddarparwyr o bob cwr o Gymru â'i gilydd i wneud defnydd da o'r Gronfa Buddsoddi ar y Cyd a'r

Gronfa Gwella Ansawdd, a reolwyd gan yr hen ELWa[4], i wella eu systemau a'u prosesau.

46 Lle nododd arolygwyr ddiffygion yn safon yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol mewn dysgu oedolion yn y gymuned, roedd y partneriaethau'n dangos y nodweddion canlynol:

- nid oedd prif swyddogion ac uwch reolwyr wedi rhoi trefniadau ffurfiol ar waith ar gyfer cynllunio'r gwaith o ddarparu dysgu oedolion yn y gymuned;
- ni chynrychiolwyr yr holl ddarparwyr a'r partïon â diddordeb, yn enwedig sefydliadau'r sector gwirfoddol neu sefydliadau addysg uwch, yn y trefniadau cynllunio ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned;
- nid oedd darparwyr yn effeithiol wrth sicrhau bod rheolaeth a chydlyniad DOG yn cael effaith ar ddarpariaeth ac nid oeddent yn gallu mesur cynnydd; ac
- nid oedd grwpiau rheoli wedi rhoi cyfeiriad ac eglurder digonol i waith yr is-grwpiau sy'n gyfrifol am ddarparu DOG yn weithredol.

[4] ELWa – cyn Gorff Cyhoeddus Anadrannol a oedd yn gyfrifol am addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru, sydd bellach yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru

Darparu gyda'i gilydd: Datblygu ffocws ar y cyd ar wella canlyniadau ac ehangu'r cwricwlwm

Tabl 2: Pa mor dda y mae'r cwrciwlwm a gynigir i ddysgwyr yn bodloni anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned leol?



47 Mae 44% o'r partneriaethau a'r sefydliadau a arolygwyd rhwng Hydref 2004 ac Ionawr 2008 yn cydweithio'n dda â'i gilydd er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm a gynigir i ddysgwyr yn adlewyrchu anghenion y gymuned.

48 Pan fydd y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm yn dda, mae darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gynnal archwiliadau effeithiol o anghenion y gymuned, Yna, maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i:

- gynhyrchu cynlluniau clir sy'n nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer y ddarpariaeth ac yn addasu'n cwricwlwm i ymateb i strategaethau economaidd cenedlaethol a rhanbarthol;
- dylanwadu ar y modd y cyflwynir y cwricwlwm mewn ffordd sy'n adlewyrchu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach;
- gweithio mewn modd anghystadleuol i leihau dyblygu ac i lenwi bylchau a nodwyd yn y ddarpariaeth gyffredinol; a
- sicrhau bod gan ddysgwyr ddewis da o ddarpariaeth gyda llwybrau dilyniant clir o un lefel i'r llall ac ar yr un lefel.

Coleg Cymunedol yr YMCA: Targedu'r dysgwyr nad ydynt yn cymryd rhan mewn dysgu

Mae Coleg Cymunedol yr YMCA yn cydweithio'n dda iawn â phartneriaid arbenigol i gyrraedd unigolion nad ydynt yn cymryd rhan mewn dysgu yn gyffredinol. Er enghraifft, mae'r coleg yn cydweithio'n dda â Gwasanaethau Prawf Cenedlaethol Cymru i ddarparu cyfleoedd dysgu i droseddwyr sy'n cwblhau gorchmynion cosb gymunedol. Mae'r coleg yn sicrhau bod dysgwyr yn cael gwybodaeth am lwybrau dilyniant sydd ar gael yn y coleg neu drwy ddarparwyr addysg bellach eraill.

Rhwydwaith Dysgu Bro Morgannwg: Sicrhau dewis a dilyniant

Mae Rhwydwaith Dysgu Bro Morgannwg yn cydweithio'n dda i farchnata'r cyrsiau gan yr holl ddarparwyr yn effeithiol. Mae hyn yn mwyhau ymwybyddiaeth pobl leol o'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael ac yn sicrhau bod gan dysgwyr ddewis da o ddarpariaeth. Mae darparwyr yn gweithio'n dda mewn modd anghystadleuol i leihau dyblygu ac i lenwi bylchau a nodwyd yn y ddarpariaeth gyffredinol. Mae'r Rhwydwaith wedi cynhyrchu dogfen 'llwybrau dilyniant' sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i helpu tiwtoriaid i roi cyngor i ddysgwyr sydd am barhau i ddysgu ar lefel uwch.

Cynllunio'r cwricwlwm yng Nghastell-nedd Port Talbot

Mae'r Rhwydwaith Dysgu Newydd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cynllunio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm sy'n ymateb yn dda i strategaethau economaidd cenedlaethol a rhanbarthol, yn enwedig mewn TGCh, Gofal, y Cyfryngau a Pharatoi ar gyfer Bywyd a Gwaith. Mae darparwyr yn dadansoddi data'n rheolaidd am natur y cwricwlwm ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio datblygiadau i'r cwricwlwm ac i nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer darpariaeth newydd. Mae'r rhwydwaith hefyd yn ailddyrannu adnoddau ar draws meysydd dysgu er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm yn cyd-fynd yn dda ag anghenion lleol.

49 Nid oes digon o ddarparwyr yn cydweithio'n ddigon da â'i gilydd i sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu anghenion y gymuned. Yn yr achosion hyn:

- nid yw darparwyr wedi pennu blaenoriaethau ac amcanion allweddol ar gyfer DOG nac wedi sefydlu cynlluniau ar gyfer y cwricwlwm;
- mae'r cwricwlwm a gynigir yn adlewyrchu patrwm y blynyddoedd blaenorol yn unig;
- nid yw darparwyr wedi canfod lefel yr angen am ddosbarthiadau Cymraeg neu ddwyieithog nac wedi ymgynghori â siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf am eu hanghenion a'u diddordebau;
- mae darparwyr yn aml yn dyblygu'r ddarpariaeth ac o ganlyniad i hynny, nid ydynt yn gwneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer DOG yn eu hardal; ac
- nid yw darparwyr yn cynnig ystod digon eang o gyfleoedd i symud ymlaen i lefelau dysgu uwch nac i gyrsiau a gynigir gan ddarparwyr eraill.

Partneriaeth gyda dysgwyr: Cynnwys dysgwyr wrth wneud penderfyniadau a chynllunio eu dysgu

50 Mae rhai darparwyr DOG yn cydweithio'n dda â dysgwyr i'w cynnwys wrth gynllunio'r ddarpariaeth. Maent yn cysylltu'n dda â dysgwyr er mwyn cyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng yr hyn y mae dysgwyr ei eisiau a sicrhau bod yr ystod orau o gyrsiau a dosbarthiadau ar gael i fodloni anghenion y gymuned. Mae'r darparwyr hyn yn defnyddio tri dull o ymgysylltu â dysgwyr:

- trwy strwythurau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau;
- gan ddefnyddio dulliau allgymorth ac ymgynghori â'r gymuned; a
- thrwy hyfforddi dysgwyr fel eiriolwyr neu hyrwyddwyr ar gyfer dysgu oedolion.

Strwythurau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau

51 Lle mae darparwyr yn ymgynghori'n effeithiol â dysgwyr ac yn eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu dysgu, maent:

- yn cynnwys dysgwyr yn ffurfiol fel partneriaid yn y broses gynllunio. Maent yn sefydlu grwpiau rheoli neu fforymau neu'n cynnal cyfarfodydd arbennig. Mae dysgwyr yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol mewn grwpiau rhanddeiliaid a grwpiau rheoli;
- yn cynnig hyfforddiant i ddysgwyr i ddatblygu eu medrau i gymryd rhan mewn prosesau cynllunio a phenderfyniadau; ac
- mae ganddynt systemau ffurfiol ar gyfer casglu barn dysgwyr wrth gynllunio eu rhaglenni blynyddol.

Trefniadau da ar gyfer sefydlu fforymau dysgwyr

Mae RISE, sef rhwydwaith dysgu sy'n gweithredu ar draws pum ardal awdurdod lleol sy'n cynnwys hen sir Gwent, wedi sefydlu fforwm dysgwyr ym mhob un o'r pum ardal. Mae pob un o'r fforymau'n cael ei gynrychioli mewn fforwm dysgwyr RISE sy'n cyfrannu at fwrdd partneriaeth RISE. Mae'r pum fforwm ardal yn cyfarfod unwaith y tymor ac mae fforwm dysgwyr RISE yn cyfarfod yn fisol.

Mae'r rheiny sy'n cymryd rhan yn fforymau RISE o'r farn eu bod wedi gallu dylanwadu mwy ar fwrdd y bartneriaeth a gweithgareddau gweithredol RISE.

52 Er mwyn cymryd rhan mewn prosesau penderfynu, nododd dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn fforymau dysgwyr bod angen iddynt:

- gael digon o rybudd o weithgareddau i'w galluogi i gymryd rhan;
- cael ad-daliad o unrhyw gostau yn sgil cymryd rhan mewn cyfarfodydd;

- cael hyfforddiant i'w helpu i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth;
- cael arweiniad a chylch gorchwyl clir ynghylch eu rôl mewn prosesau gwneud penderfyniadau;
- gallu gwneud gwahaniaeth ar lefel tiwtoriaid a chyrsiau;
- cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd; a
- gweld bod gwahanol anghenion a galluoedd cyfranogwyr yn cael eu hystyried mewn arferion gwaith.

Cynnwys dysgwyr mewn rheolaeth a threfn lywodraethol

Mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru (CAG (De)) fel arfer yn cynnwys dysgwyr yn eu prosesau gwneud penderfyniadau ac yn nhrefn lywodraethol y sefydliad.

Mae CAG (De) yn annog ac yn helpu dysgwyr i ffurfio canghennau ar lefel leol. Mae canghennau lleol yn gyfrifol am benderfynu ar y cwricwlwm a gynigir yn yr ardal ac am godi arian ar gyfer gweithgareddau ychwanegol.

Mae CAG (De) yn cael ei rheoli gan gyngor gwirfoddolwyr sy'n ethol ei aelodau o'i ganghennau a charfan y dysgwyr. Mae aelodau'r cyngor yn cymryd cyfrifoldebau fel ymddiriedolwyr elusen, llywodraethwyr sefydliad addysg bellach a chyfarwyddwyr cwmni cyfyngedig. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn gyfrifol am lunio a chymeradwyo cynlluniau a pholisïau strategol a gweithredol. Yn y blynyddoedd diwethaf, bu'n gyfrifol am ad-drefniad pwysig o strwythur rheoli'r sefydliad, gwella rheolaeth ariannol y sefydliad a sicrhau ansawdd.

Sefydlu fforymau dysgwyr at ddibenion penodol

Yn dilyn gweithrediad Strategaeth i Bobl Hŷn yn 2003, sefydlodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf dri fforwm lleol a oedd yn dod â chynrychiolwyr pobl hŷn at ei gilydd. Cyfrannodd y fforymau at y Strategaeth i Bobl Hŷn yn Rhondda Cynon Taf a datblygu cwricwlwm DOG i bobl hŷn. Oherwydd hyn, sefydlodd y cyngor 'Grŵp Cynllunio Gweithredol ar gyfer Dysgwyr Hŷn'. Mae hwn yn sicrhau bod dysgwyr hŷn yn gallu rhoi gwybod i ddarparwyr dysgu am eu hanghenion yn barhaus.

Dulliau allgymorth ac ymgynghori â'r gymuned

53 Mae rhai darparwyr yn cydweithio'n dda â dysgwyr gan ddefnyddio gwaith allgymorth a dulliau ymgynghori â'r gymuned i'w helpu i adnabod anghenion dysgwyr a chynllunio dysgu'n unol â hynny.

Gweithio'n uniongyrchol â dysgwyr i ymgynghori â nhw am eu hanghenion dysgu

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae staff o'r prosiect Broceriaid Dysgu yn gweithio'n uniongyrchol â phobl sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Maent yn eu helpu i nodi eu hanghenion dysgu a'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant yn effeithiol. Mae staff y prosiect yn cydweithio'n dda â darparwyr dysgu eraill, gan gynnwys yr awdurdod lleol. O ganlyniad, mae cyfleoedd dysgu addas ar gael ac mae dysgwyr yn cael lefel uchel o gymorth.

Mae'r rhaglen Ymestyn yn Uwch Ymestyn yn Ehangach yn Wrecsam wedi'i lleoli ym Mharc Caia, seff un o'r pedair ward Cymunedau yn Gyntaf yn y fwrdeistref sirol. Mae staff yn gweithio'n uniongyrchol â dysgwyr o ardal Parc Caia i'w hannog i gymryd rhan mewn cyrsiau sy'n eu helpu i fagu hyder a symud ymlaen i addysg uwch. Mae dysgwyr hefyd yn cymryd rhan fel aelodau o grŵp rheoli'r prosiect, sy'n eu helpu i ddylanwadu ar y modd y darperir y rhaglen.

54 Yn 'Addewid a Chyflawniad' (2007), mae Webb yn adrodd bod gan sefydliadau gwirfoddol rai o'r storïau llwyddiant gorau gyda'r oedolion anoddaf eu cyrraedd. Cefnogir y farn hon gan ddogfen ymgynghori 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' (Ionawr 2008). Mae'r dystiolaeth o arolygiadau'n dangos bod y gwaith hwn yn fwyaf effeithiol pan fydd sefydliadau yn y gymuned a/neu sefydliadau gwirfoddol yn cyfuno â darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned i gyflwyno dysgu. Mae'r gwaith hwn ar y cyd yn sicrhau bod darparwyr:

- yn gallu ymgysylltu â dysgwyr amharod a'r rheiny sy'n anodd eu cyrraedd yn well;
- yn gallu datblygu rhaglenni dysgu sy'n ymateb i anghenion y dysgwyr hyn; ac
- yn gallu helpu sefydliadau yn y gymuned a/neu sefydliadau gwirfoddol i gwblhau gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn effeithiol.

Gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau yn y gymuned i gysylltu â dysgu sy'n anodd eu cyrraedd

Mae darparwyr sy'n dysgu oedolion yn y gymuned yn Rhwydwaith Dysgu Bro Morgannwg wedi cydweithio'n dda â sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau yn y gymuned i gysylltu'n llwyddiannus â dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd.

Mae darparwyr wedi cydweithio'n dda â:

- Chymdeithas Tai Llamau i gysylltu â dysgwyr sy'n ddigartref neu gleientiaid y Tîm Troseddau Ieuenctid;
- MIND, SCOPE ac Ymddiriedolaeth GIG y Fro i annog pobl sydd â phroblemau iechyd sylweddol i gymryd rhan mewn dysgu; a
- mosg lleol i ddatblygu cwrs TG yn benodol i ferched Mwslimaidd. Byddai'r dysgwyr hyn wedi'i chael yn anodd cymryd rhan mewn dysgu ochr yn ochr â phobl o'r gymuned ehangach.

Mae darparwyr yn Nhorfaen yn cydweithio'n dda â sefydliadau statudol a gwirfoddol eraill gan gynnwys Cychwyn Cadarn, y Lloches i Ferched ac Undebau Credyd. Mae hyn yn helpu dysgwyr, gan gynnwys y rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, i gymryd rhan mewn cyrsiau sydd wedi'u haddasu i fodloni eu hanghenion, ac yn annog adfywio cymunedol.

Cynnwys dysgwyr fel eiriolwyr neu hyrwyddwyr dysgu

55 Mae rhai darparwyr wedi hyfforddi dysgwyr unigol i'w helpu i weithredu fel eiriolwyr neu hyrwyddwyr dysgu. Mae hyn yn helpu dysgwyr i roi cyngor ac arweiniad i oedolion eraill i'w hannog i gymryd rhan mewn dysgu.

Galluogi dysgwyr i hyrwyddo dysgu oedolion yn y gymuned

Mae rhwydwaith RISE wedi creu rôl Eiriolwr Dysgu. Mae Eiriolwyr Dysgu'n helpu darparwyr i baratoi cynlluniau datblygu dysgu blynyddol ac yn casglu barn dysgwyr eraill am raglenni dysgu. Maent hefyd yn cysylltu â phobl nad ydynt yn cymryd rhan mewn dysgu i'w hannog i gymryd rhan.

Mae CAG (De) yn hyfforddi dysgwyr i weithredu fel Cynrychiolwyr Dysgu Cymunedol. Maent yn cael eu hyfforddi i roi cyngor ac arweiniad i unigolion a chymunedau lleol ar sail wirfoddol. Mae tua 150 o ddysgwyr wedi cymryd rhan yn y rhaglen. Mae'r hyfforddiant hwn yn helpu'r Cynrychiolwyr Dysgu Cymunedol i lunio cynlluniau gweithredu, deunyddiau cyhoeddusrwydd ac i fynd allan i'w cymunedau i siarad am eu profiadau dysgu eu hunain a manteision dysgu i bobl eraill. Mae'r Cynrychiolwyr Dysgu Cymunedol hefyd yn cynnig gwybodaeth gyfeirio am gymorth ariannol, cludiant a gofal plant.

Mae CAG (De) wedi cydweithio'n dda â darparwyr eraill, fel Cyngor Sir Caerdydd, i weithredu'r rhaglen hon. O ganlyniad, mae'r cyngor wedi gallu llunio cyrsiau newydd a denu dysgwyr o ardaloedd yn y ddinas lle nad oedd llawer o ddysgu i oedolion yn cael ei gynnal, os o gwbl.

Allwedd i weithio ar y cyd: Ariannu teg, anghystadleuol a rhannu adnoddau'n wirioneddol

56 Nid yw digon o ddarparwyr yn fodlon rhannu eu cyllid a'u hadnoddau. Mae'r system ariannu ar gyfer DOG yn aml yn annog darparwyr i gystadlu am ddysgwyr er mwyn cael cyllid i redeg eu sefydliad neu eu mudiad eu hunain. Nid yw'r gystadleuaeth hon bob amser yn gwneud lles i'r dysgwyr, ac weithiau mae'n arwain at fwy nag un darparwr yn targedu'r un grŵp o ddysgwyr.

57 Mae darparwyr yn cydweithio â'i gilydd yn well i sicrhau ffynonellau newydd o gyllid o ddatblygu prosiectau newydd neu ddulliau newydd o weithio gyda dysgwyr. Yn aml, y prosiectau hyn yw'r rhai mwyaf arloesol a llwyddiannus o ran ennyn diddordeb dysgwyr amharod neu grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd. Fodd bynnag, mae cyllid tebyg yn aml yn fyrdymor ac nid yw darparwyr bob amser yn adolygu eu cyllid craidd er mwyn sicrhau y gallant ariannu'r gweithgaredd gyda'i gilydd pan ddaw'r cyllid allanol i ben.

58 Anaml iawn y mae cyllid ar gael i dalu i ddatblygu neu gynnal partneriaeth leol neu i dalu gweithwyr datblygu neu gydlynwyr. Mae darparwyr mawr yn aml yn talu rhai o'r costau o redeg partneriaeth. Fodd bynnag, mae partneriaid llai, sy'n aml yn cyflwyno dulliau newydd ac arloesol o ddysgu i annog pobl i ddychwelyd at ddysgu, weithiau'n teimlo, gan na allant gyfrannu'r ariannol, eu bod yn cael eu hystyried â statws llai yn y grŵp.

59 Mewn llawer o ardaloedd, mae darparwyr yn cydweithio'n dda â'i gilydd i hyfforddi staff. Fodd bynnag, er bod staff yn aml yn gweithio i fwy nag un darparwr mewn ardal, anaml iawn y mae cynllun datblygu staff strategol ar gyfer yr ardal. Mae hyfforddi ar y cyd yn aml yn dibynnu ar natur yr unigolion a'r cyfleoedd hyfforddiant, ac mae'r mathau o hyfforddiant a ddarperir yn anghyson ledled Cymru.

60 Mae rhan fwyaf y darparwyr yn cydweithio'n dda â'i gilydd i rannu adnoddau ffisegol. Maent yn rhannu lleoliadau o ansawdd da sy'n agos at ble mae dysgwyr yn byw. Mae gan lawer o leoliadau adnoddau TGCh o safon dda.

61 Yn Sir Benfro, mae rhan fwyaf y darparwyr wedi cydweithio'n dda â'i gilydd i ddatblygu rhwydwaith da o ganolfannau dysgu cymunedol. Mae gan ran fwyaf y canolfannau adnoddau TGCh gydag e-ddysgu ar gael mewn llawer o safleoedd. Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae darparwyr wedi cydweithio'n dda â'i gilydd i sefydlu rhwydwaith strategol o 19 o ganolfannau dysgu. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae rhan fwyaf y darparwyr yn rhannu lleoliadau'n effeithiol gan sicrhau y gwneir defnydd da o'r lleoliadau hyn. Mae'r ymagwedd strategol hon at ddatblygu rhwydwaith o leoliadau ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned yn helpu darparwyr i dargedu adnoddau a gwella safon yr adeiladau a'r cyfleusterau.

Partneriaid ehangach: Gweithio gyda'r trydydd sector a darparwyr eraill dysgu oedolion yn y gymuned, gan gynnwys sefydliadau addysg uwch

62 Mae darparwyr yn y sector gwirfoddol yn cynnig methodoleg wahanol a gwahanol arddulliau o ddysgu i ddarparwyr sefydliadol mwy. Fodd bynnag, mae'n aml yn anodd i'r sefydliadau gwirfoddol mwy ddod o hyd i'r adnoddau i chwarae rhan lawn mewn rhwydweithiau ardal leol hyd yn oed. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd y sefydliad yn cwmpasu ardal eang neu Gymru gyfan, fel y ddwy Gymdeithas Addysg y Gweithwyr a Choleg Cymunedol yr YMCA.

63 Mae darparwyr gwirfoddol llai yn ei chael yn anoddach byth chwarae rhan lawn mewn partneriaethau neu rwydweithiau dysgu lleol. Yn aml, nid oes gan y darparwyr hyn y staff, yr adnoddau na'r gefnogaeth i leisio eu barn nac i gyfrannu'n dda i'r gwaith o gynllunio a rheoli ansawdd y ddarpariaeth yn gyffredinol.

64 Mae darparwyr DOG neu'r rheiny sydd â diddordeb allweddol mewn dysgu oedolion sy'n aml yn cael eu hepgor o bartneriaethau lleol yn cynnwys:

- Gwasanaethau llyfrgell;
- Cydlynwyr y Strategaeth i Ddysgwyr Hŷn;
- Gweithwyr Iechyd a Lles;
- Cydlynwyr Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF);
- y Gwasanaeth Prawf; ac
- Undebau Llafur.

65 Mae llawer o sefydliadau addysg uwch (SAUau) yng Nghymru'n cynnig cwricwlwm eang ac amrywiol o ddysgu i oedolion, sy'n cwmpasu ystod o ddosbarthiadau gydag achrediad neu heb achrediad. Mae gan sefydliadau addysg uwch (SAUau) brofiad da o weithio ar y cyd â darparwyr eraill DOG i gyflwyno'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion. Fodd bynnag, mae rhai enghreifftiau da o ddarparwyr sy'n dysgu oedolion yn y gymuned yn gweithio ar y cyd ag SAUau i gynllunio darpariaeth ar draws ardal a chreu llwybrau dilyniant i ddysgwyr. Nid oes unrhyw ofyniad i SAUau gyfrannu at gynllunio darpariaeth leol, hyfforddi tiwtoriaid na mesur ansawdd. Felly, collir cyfleoedd i:

- rannu arbenigedd ac adnoddau;
- datblygu llwybrau dilyniant;
- annog ystod ehangach o ddysgwyr i ystyried symud i gyrsiau ar lefel uwch;
- cynnig cwricwlwm mwy cyffrous a chyfoethocach i ddysgwyr yn y gymuned; a
- chynnig hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) i diwtoriaid ar y cyd.

Her allweddol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth: Gwella rheoli perfformiad

66 Yn hanesyddol, mae dangosyddion perfformiad sy'n cael eu defnyddio ar gyfer DOG yn deillio o'r sector addysg bellach. Mae'r defnydd o gymaryddion cenedlaethol ar gyfer cwblhad a chyrhaeddiad yn canolbwyntio sylw ar ganlyniadau i ddysgwyr ac ansawdd yr addysgu ar lefel cyrsiau, ac yn galluogi darparwyr i gymharu eu perfformiad â'r sector.

67 Mae'r defnydd o ddangosyddion perfformiad cyfredol sy'n ymwneud ag addysg bellach ar gyfer DOG yn aml yn amhriodol. Nid oes gan dysgu oedolion yn y gymuned yr un nodweddion ag addysg bellach ac nid yw'r raddfa ddysgu yr un fath.

68 Mae cyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned yn aml yn para 60 awr yn unig, neu lai. Gallai cyfranogwyr ennill nifer o gymwysterau'n seiliedig ar gredydau o'r un cwrs, a gall y credydau hyn fod ar amryw o wahanol lefelau. Mewn dysgu oedolion yn y gymuned, nid yw teitlau cyrsiau'n cael eu safoni rhwng darparwyr, er y bydd cynnwys a chanlyniadau'r cyrsiau'n debyg. Bydd llawer o oedolion sy'n dysgu yn parhau i ddysgu ar ôl i'w cwrs ddod i ben. Byddant naill ai'n symud ymlaen i lefel uwch o ddysgu neu'n cwblhau cwrs perthynol ar yr un lefel. O ganlyniad, nid yw'n briodol defnyddio dangosyddion perfformiad sydd wedi'u llunio i fesur cwblhad a chyrhaeddiad mewn gwahanol leoliadau.

69 Mae'r agenda cyfranogiad sy'n ehangu yn sbardun allweddol i lawer o ddarparwyr DOG. Mae llawer o ddysgwyr nad ydynt wedi llwyddo yn y gorffennol yn dychwelyd i ddysgu trwy gyrsiau yn y gymuned ac yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid oes mesur cenedlaethol ar waith ar hyn o bryd i ddangos graddau'r llwyddiant hwnnw.

70 Mewn addysg sylfaenol i oedolion, SSIE a Chymraeg i Oedolion, mae fframweithiau cymhwyster y mae rhan fwyaf y darparwyr yn gweithio oddi mewn iddynt. Fodd bynnag, mae diffyg meincnod ar gyfer dilyniant yn parhau i atal darparwyr rhag mesur nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen rhwng lefelau.

71 Mae rhan fwyaf y darparwyr unigol yn casglu data am raddau cofrestru, cwblhau a chyrhaeddiad ar lefel cyrsiau. Maent yn defnyddio'r data perfformiad hwn yn dda i fesur eu perfformiad eu hunain. Maent yn nodi cryfderau a gwendidau mewn canlyniadau i ddysgwyr ac ansawdd yr addysgu ar gyrsiau unigol. Ychydig iawn o ddarparwyr sy'n dadansoddi gwybodaeth am gynnydd disgyblion i lefel uwch o astudio neu gyrsiau gwahanol ar yr un lefel. Fodd bynnag, gan nad oes unrhyw feincnodau cenedlaethol cytûn ar gyfer y sector, nid yw trefniadau systematig a ffurfiol ar gyfer monitro a gwella cyflawniadau dysgwyr a safonau addysgu ac asesu ar lefel genedlaethol wedi'u datblygu'n ddigonol.

72 Nid oes digon o ddarparwyr unigol yn rhannu eu data perfformiad gyda phartneriaid. Nid yw partneriaethau'n casglu'r wybodaeth hon ar lefel ardal ychwaith i lywio eu gwaith cynllunio a monitro o ba mor dda y mae darparwyr yn yr ardal yn perfformio o'u cymharu â'i gilydd neu o'u cymharu â darparwyr eraill yng Nghymru. O ganlyniad, nid oes golygfa genedlaethol o ba mor dda y mae oedolion sy'n dysgu yn y gymuned yn cyflawni, yr hyn y maent yn ei wneud nac i ble y maent yn symud ymlaen.

73 Mae'r holl ddarparwyr yn casglu data demograffig am ddysgwyr wrth iddynt gofrestru. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd o'r data hwn i lywio gwaith cynllunio a monitro wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Nid yw darparwyr yn defnyddio'r data hwn ddigon i adnabod nodweddion eu carfan dysgwyr, targedu'r ddarpariaeth, adnabod grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli nac i sicrhau adnoddau ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

74 Yn yr un modd, nid yw'r data hwn yn cael ei rannu â darparwyr eraill i greu darlun o nodweddion demograffig yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn dysgu oedolion yn y gymuned yn yr ardal. Yn ogystal â hynny, nid oes polisi cenedlaethol ar hyn o bryd i dynnu'r wybodaeth hon at ei gilydd yn genedlaethol. Er bod y wybodaeth hon yn bodoli i ryw raddau yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC), nid oes darlun cenedlaethol o ddemograffeg oedolion sy'n dysgu yn y gymuned yng Nghymru.

75 Byddai dangosyddion perfformiad a meincnodau ar gyfer y sector DOG cyfan yn helpu darparwyr a dysgwyr i ddyheu i gyflawni'r safonau uchaf ac:

- yn meithrin uchelgais i berfformio ar y lefel uchaf;
- yn atal perfformiad gwael trwy ganfod a chymryd camau'n gynnar;
- yn helpu darparwyr i gymharu eu perfformiad ar draws yr ardaloedd y maent yn gweithredu ynddynt ac o fewn y darlun cenedlaethol; ac
- yn rhoi syniad o ba mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni ac o'u llwybrau dilyniant.

76 Byddai ystod wedi'i rhannu o ddangosyddion perfformiad yn benodol i'r sector yn mesur:

- cwblhad, cyrhaeddiad a llwyddiant yn ôl lefel pwnc (e.e. Lefel 1 TG, Lefel 2 Celf);
- dilyniant i lefelau dysgu uwch;
- dilyniant i feysydd dysgu newydd ar yr un lefel;
- llwyddiant a dilyniant dysgwyr nad ydynt wedi cael llawer iawn o lwyddiant mewn dysgu yn y gorffennol;
- effaith strategaethau ar gyfer ehangu cyfranogiad; a
- thueddiadau demograffig o ran cyfranogiad dysgwyr mewn dysgu oedolion yn y gymuned.

Atodiad 1: Y fframwaith arolygu cyffredin

Mae'r fframwaith arolygu cyffredin ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn canolbwyntio ar saith cwestiwn allweddol sy'n berthnasol i'r darparwr, neu'r bartneriaeth, yn eu cyfanrwydd, yn ogystal ag unrhyw agweddau ar eu gwaith fel meysydd dysgu, pynciau, cyrsiau a rhaglenni. Mae'r cwestiynau allweddol fel a ganlyn:

Safonau

1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Ansawdd addysg a hyfforddiant

2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

3 Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

4 Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Arweinyddiaeth a rheolaeth

5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

7 Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Atodiad 2: Sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu ar dystiolaeth a adroddwyd yn yr arolygiadau o ddysgu oedolion yn y gymuned a gynhaliwyd yng:

Nghaerffili (Hydref 2004)
Wrecsam (Chwefror 2005)
Rhondda Cynon Taf (Mai 2005)
Conwy (Tachwedd 2005)
Sir Ddinbych (Chwefror 2006)
Torfaen (Mawrth 2006)
Ceredigion (Mai 2006)
Sir Benfro (Hydref 2006)
Castell-nedd Port Talbot (Chwefror 2007)
Bro Morgannwg (Mawrth 2007)
Pen-y-bont ar Ogwr (Mai 2007)
Sir Gaerfyrddin (Hydref 2007)
Caerdydd (Rhagfyr 2007)
Coleg Cymunedol yr YMCA (Rhagfyr 2006)
Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (Ionawr 2008)

Mae'r data a gyflwynwyd yn y tablau yn deillio o'r graddau a ddyfarnwyd i Gwestiynau Allweddol 1-7 ar gyfer yr holl arolygiadau o ddysgu oedolion yn y gymuned ers mis Hydref 2004.

Hefyd, cynhaliwyd cyfweliadau pellach gyda:

- Choleg Harlech, Chymdeithas Addysg y Gweithwyr Gogledd Cymru
- Coleg Gwent
- Prifysgol Morgannwg
- Fforwm Dysgwyr RISE

Llyfryddiaeth

Beecham. J (2006) Ar Draws Ffiniau: Gwasanaethau Lleol sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd. Llywodraeth Cynulliad Cymru

Estyn (Ebrill 2004) Ehangu cyfranogiad mewn dysgu yn y gymuned i oedolion: Arolwg o arfer orau

Estyn (Hydref 2004) Arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned yng Nghaerffili

Estyn (Chwefror 2005) Arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned yn Wrecsam

Estyn (Mai 2005) Arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned yng Nghaerffili

Estyn (Tachwedd 2005) Arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned yng Nghonwy

Estyn (Chwefror 2006) Arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned yn Sir Ddinbych

Estyn (Mawrth 2006) Arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned yn Nhorfaen

Estyn (Mai 2006) Arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned yng Ngheredigion

Estyn (Hydref 2006) Arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned yn Sir Benfro

Estyn (Rhagfyr 2006) Arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned yng Ngholeg Cymunedol YMCA Cymru

Estyn (Chwefror 2007) Arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned yng Nghastell-nedd Port Talbot

Estyn (Mawrth 2007) Arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned ym Mro Morgannwg

Estyn (Mai 2007) Arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Estyn (Hydref 2007) Arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned yn Sir Gaerfyrddin

Estyn (Rhagfyr 2007) Arolygiad o ddysgu oedolion yn y gymuned yng Nghaerdydd

Llywodraeth Cynulliad Cymru – Llywodraeth Cynulliad Cymru: Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru – strategaeth sgiliau a chyflogaeth Ionawr 2008

Webb. A (Rhagfyr 2007) Addewid a Chyflawniad: Yr Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o genhadaeth a phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith

Gellir lawrlwytho Adroddiadau Estyn o arolygiadau o ddysgu oedolion yn y gymuned yn www.estyn.gov.uk

Geirfa/cyfeiriadau

APADGOS	Adran Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes Llywodraeth Cynulliad Cymru
Consortia Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant (CCET)	Roedd y rhain yn grwpiau lleol o ddarparwyr addysg a hyfforddiant i ddysgwyr dros 16 oed a oedd yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chynllunio'r ddarpariaeth leol. Sefydlwyd y rhain ym 1999 yn dilyn argymhellion Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg a Hyfforddiant i Gymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n adolygu rôl CCAHau ar ôl sefydlu rhwydweithiau 14-19 a grwpiau'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.
Cronfa Buddsoddi ar y Cyd	Menter gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo gweithio ar y cyd, gwella'r isadeiledd dysgu, ansawdd y profiad dysgu ac ansawdd yr amgylchedd dysgu
Cronfa Gwella Ansawdd	Roedd y Gronfa Gwella Ansawdd (CGA) yn elfen allweddol o strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella ansawdd a hyrwyddo rhagoriaeth wrth ddarparu dysgu ôl-16 yng Nghymru. Gweinyddwyd y gronfa gan ELWa gynt.
Cronfa Gymdeithasol Ewrop	Sefydlwyd Cronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE) i wella cyfleoedd gwaith yn yr Undeb Ewropeaidd er mwyn helpu i godi safonau byw. Mae'n anelu at helpu pobl i wireddu eu potensial trwy roi medrau gwell a rhagolygon gwell iddynt ar gyfer cael swydd.
Cychwyn Cadarn	Mae Cychwyn Cadarn yn rhaglen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n anelu at roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn ac yn dod ag addysg gynnar, gofal plant, iechyd a chymorth teuluol at ei gilydd.
Cynghorau Gwirfoddol Sirol	Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn cynrychioli ac yn hyrwyddo'r sector gwirfoddol yn ardal eu Hawdurdod Lleol.

Cymunedau yn Gyntaf	Cymunedau yn Gyntaf yw rhaglen Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella amodau byw a rhagolygon pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru.
Cyswllt Dysgu	Mae Cyswllt Dysgu yn sefydliad sy'n darparu cyfleoedd hyfforddiant hyblyg trwy rwydwaith o 2000 o ganolfannau dysgu ar-lein yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
ELWa	Addysg a Dysgu Cymru. Mae hwn bellach yn rhan o Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Lloches i ferched	Mae lloches i ferched yn hafan ddiogel i ferched sydd â phlant neu heb blant sydd wedi dioddef o ganlyniad i drais yn y cartref.
MIND	Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl yn y Deyrnas Unedig
SCOPE	Mae Scope yn fudiad anabledd yn y DU sy'n canolbwyntio ar bobl sydd â pharlys yr ymennydd.
TGCh	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu
Tîm Troseddau Ieuenctid	Mae Tîm Troseddau Ieuenctid ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr. Cynrychiolir staff o amrywiaeth o asiantaethau yn y timau hyn. Pwrpas y tîm yw atal troseddau ieuenctid.
Y trydydd sector	Mae'r trydydd sector yn cynnwys sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth sy'n cael eu harwain gan werth, ac sy'n ail-fuddsoddi eu gwargedion i symud amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol ymlaen. Mae'n cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, elusennau, mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd a chwmnïau cydfuddiannol. Mae cymdeithasau tai hefyd yn rhan o'r trydydd sector.
Undeb Credyd	Mae Undebau Credyd yn cynnig gwasanaethau ariannol i'r gymuned, gan gynnwys benthyciadau, cynilion, cyfrif cyfredol, cyfrifon ac yswiriant.